# Cofrestrfa Tir
## Atodiad i Gyfarwyddyd Ymarfer 64

## Prydlesi cymalau penodedig

Dylech ddarllen y nodiadau cyfarwyddol canlynol ochr yn ochr ag adran *3.2.1 Prydlesi nad ydynt yn gorfod cynnwys cymalau penodedig* yn argraffiad Mai 2006 Cyfarwyddyd Ymarfer *64 – Prydlesi cymalau penodedig*. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn argraffiad nesaf y cyfarwyddyd.

**Eithriad trwy neu dan ddeddfiad**

– I hawlio eithriad dan ddeddfiad rhaid bod y brydles wedi'i llunio ar ffurf sy'n ofynnol yn benodol dan Ddeddf, yn hytrach na chael ei rhoi yn unol â'r Ddeddf honno yn unig, neu yn cynnwys darpariaethau penodol (fel hawddfreintiau) a bennir gan y Ddeddf honno.

**Gweithred amrywio**

– Mae'r eithriad yn gymwys dim ond i weithred amrywio, sy'n arwain at amrywio'r brydles trwy estyn cyfnod neu stent a brydleswyd y brydles sy'n bodoli ac sydd felly yn 'ildiad ac ail-roi tybiedig'.
– Er y datgenir bod y brydles yn weithred amrywio, nid yw'r eithriad yn gymwys os yw ei thelerau mewn gwirionedd yn darparu ar gyfer ildio datganedig y brydles sy'n bodoli a rhoi prydles newydd yn ei lle.
– Gweler adrannau *2.1.1* a *3.2* Cyfarwyddyd Ymarfer *28 – Estyn prydlesi* am wybodaeth bellach.